

## CYNGOR CYMUNED LLANDYSUL COMMUNITY COUNCIL

**Cofnodion Cyfarfod Misol Cyngor Cymuned Llandysul Community Council a gynhaliwyd yng Nghanolfan Ieuenctid Tysul Youth Centre, Llandysul, ar 12th January 2015**

**Minutes of Monthly Meeting of Cyngor Cymuned Llandysul Community Council held at Canolfan Ieuenctid Tysul Youth Centre, Llandysul, on 12fed Ionawr 2015**

**Yn Bresennol/Present:** Cyng/Cllrs Tom Cowcher Miss Beth Davies Mr Douglas Davies Mrs Philippa Davies Roy Davies Andrew Howell Terry Griffiths Mrs Carolyn Reed-Rees, Mrs Abby Reid, Cyng Sir, Peter Davies

- 1 **Ymweliad/Visit** – Roedd Paul Arnold, Pennaeth Gwasanaethau Trefol ac Amgylcheddol, Cyngor Sir Ceredigion, yn bresennol yn y cyfarfod er mwyn trafod yr holl faterion sy'n ymwneud â thynnu'r cyllid yn ôl ar gyfer y lle chwarae, y blodau a'r Parc Coffa yn Llandysul. Cafwyd gwybodaeth lawn gan Mr Arnold ynghylch yr hyn sy'n ofynnol gan y Cyngor Cymuned megis yswiriant, cynnal a chadw, archwiliadau blynyddol o'r cyfarpar. Diolchodd Cyng Tom Cowcher i Gyng Abby Reid am ei holl waith ynghylch y cyfarpar yn y Lle Chwarae i Blant. Byddai'r holl faterion eraill yn cael eu trafod yn llawn yn ystod y cyfarfod. / Paul Arnold, Head of Municipal and Environmental Services, Ceredigion County Council attended the meeting to discuss all the issues relating to withdrawal of funding for the playarea, floral displays and Memorial Park in Llandysul. Mr Arnold gave full information regarding what was required from the Community Council such as insurance, upkeep, annual checks on apparatus. Cllr Tom Cowcher thanked Cllr Abby Reid for all her work on the Children's Playground apparatus. All issues would be discussed in full in the meeting.

### **PCSO**

Roedd PCSO Shan Davies yn bresennol yn y cyfarfod er mwyn rhoi diweddariad am y digwyddiadau yn Llandysul. Roedd 8 tocyn goryrru wedi cael eu cyhoeddi, cafwyd 3 galwad ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac nid oedd unrhyw rai o'r rhain yn bobl ifanc lleol. Cafwyd un bwrgeriaeth hefyd. Ar y cyfan, bu Llandysul yn dawel iawn dros y Nadolig. / PCSO Shan Davies attended the meeting with an update on events in Llandysul. 8 speeding tickets had been issued, 3 calls on anti-social behavior none of which were local youths. There was also 1 burglary. On the whole Llandysul was very quiet over the Christmas period.

- 1 **Ymddiheuriadau/Apologies:** Cafwyd ymddiheuriadau gan/Apologies was received from Cyng/Cllr Keith Evans, Wyn Evans, Eileen Curry a/ and County Councillor Peter Davies.
- 2 **Datgelu Buddiannau/Declarations of Interest:** Ni Ddatgelwyd unrhyw Fuddiannau / There were no Declerations of Interest
- 3 **Cofnodion/Minutes:** Derbyniwyd bod cofnodion y cyfarfod misol a gynhaliwyd ar 8 Rhagfyr 2014 yn gywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd / Minutes of monthly meeting held on 8 December 2014.

#### **Materion yn Codi:-**

**Coed ym Maesymeillion** Adroddwyd bod y materion mewn perthynas â'r coed yn symud yn eu blaen.

#### **Bancio yn Llandysul**

##### **Yr Hen Gapel, Llwynrhydowen**

Penderfynwyd y dylai'r clerc ysgrifennu eto ynghylch y gweledd gwael gan nad oedd unrhyw beth wedi cael ei wneud i wella'r sefyllfa.

##### **Y Padlwyr**

Roedd Cyng Tom Cowcher a Wyn Evans wedi bod i weld y Padlwyr er mwyn ystyried materion diogelwch mewn perthynas â'r tir. O ganlyniad, penderfynwyd rhyddhau'r arian a glustnodwyd, sef £3000.

##### **Goleuadau Nadolig**

Penderfynwyd cynnwys Goleuadau Nadolig fel eitem ar yr agenda yn gynnar yn y flwyddyn.

##### **Hawliau Tramwy**

Adroddwyd y byddai Eileen Curry a Tom Cowcher yn cyfarfod gyda Nigel Nicholas ar 21/01/15.

#### **4) Materion y mae angen gwneud**

##### **penderyniadau amdanynt:-**

**Ceisiadau Ariannol** Ni chafwyd unrhyw geisiadau ariannol.

##### **Gohebiaeth**

##### **Ceredigion**

**Ymateb i Geisiadau Cynllunio** Cafwyd llythyr ac fe'i anfonwyd ymlaen at yr holl Gynghorwyr, a oedd yn sôn am y trefniadau newydd o anfon ffeiliau electronig yn unig ar gyfer ceisiadau cynllunio. Penderfynwyd y dylai'r clerc anfon yr holl geisiadau ymlaen at yr holl gynghorwyr ac y dylai'r cynghorwyr perthnasol ar yr is-bwyllgor cynllunio ar gyfer gwahanol ardaloedd ymateb i'r clerc er mwyn ei galluogi hi i anfon ateb i'r Cyngor Sir. Penderfynwyd y dylai'r clerc ofyn i gynrychiolydd o'r Cyngor Sir i ddod i'r cyfarfod er mwyn cynnig hyfforddiant am Geisiadau Cynllunio/Cynllun Datblygu Lleol.

**Balchder Pentrefi** Cafwyd ffurflen werthuso gan Gyngor Sir Ceredigion. Penderfynwyd y bydd y clerc yn ymateb i'r cais.

**Tynnu Cyllid yn ôl ar gyfer Blodau** Cafwyd llythyr a oedd yn hysbysu'r cyngor o'r arbedion y byddai modd eu gwneud os na fyddai'r Cyngor yn talu am flodau. Penderfynwyd cynnwys y

#### **Matters Arising:-**

**Trees in Maesymeillion** It was reported that matters regarding the trees were moving ahead.

##### **Banking in Llandysul**

##### **Yr Hen Gapel, Llwynrhydowen**

It was decided that the clerk write again regarding the poor visibility as nothing had been done to rectify the situation.

##### **The Paddlers**

Cllr Tom Cowcher and Wyn Evans had been to the Paddlers in order to look at the safety issues regarding the land. As a result it was decided to release the £3000 funding that had been earmarked.

##### **Christmas Lights**

It was decided to put Christmas Lights on the agenda early in the year.

##### **Rights of Way**

It was reported that Eileen Curry and Tom Cowcher would be meeting with Nigel Nicholas on the 21/01/15.

#### **4) Matters requiring decisions:-**

**Funding Applications** No funding applications were received.

##### **Correspondence**

##### **Ceredigion**

**Responding to Planning Applications** A letter was received and forwarded to all Councillors regarding new plans of only sending electronic files for planning applications. It was decided that the clerk forward all applications to all councillors and that the relevant councillors on the planning sub committees for different areas to respond to clerk to enable her to reply to the County Council. It was decided that the clerk ask for a representative from the County Council to come to the meeting to train on Planning Applications/Local Development Plan.

**Balchder Pentrefi** An evaluation form was received from Ceredigion County Council. It was decided that the clerk respond to the request.

**Withdrawal of Funding for Floral Displays** A letter was received to notify the council of savings that could be made if the Council did not fund the floral displays. It was decided to put the matter on the Agenda next month.

##### **Withdrawal of Funding for Children's**

**Playground** A letter explaining that the County Council would not be funding Children's

mater ar Agenda cyfarfod y mis nesaf.

### **Tynnu Cyllid yn ôl ar gyfer y Lle Chwarae i**

**Blant** Cafwyd llythyr yn esbonio na fyddai'r Cyngor Sir yn ariannu'r Lle Chwarae i Blant yn Llandysul o fis Ebrill 2015, a'i fod yn cynnig trosglwyddo'r cyfrifoldeb i'r Cyngor Cymuned. Bydd y clerc yn cynnwys y mater ar Agenda cyfarfod y mis nesaf a hefyd, bydd yn holi Yswirwyr y Cyngor Cymuned faint y byddai'r yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ychwanegol yn ei gostio.

### **5) Materion i'w trafod**

**Praesept** – Roedd y clerc wedi paratoi crynodeb o'r gwariant tan ddiwedd y flwyddyn ariannol. Yn dilyn trafodaeth hir, penderfynwyd peidio codi'r praesept. Penderfynwyd cymwys materion ariannol cyffredinol ar agenda cyfarfod y mis nesaf.

**Plysydderwen** – Cafwyd adroddiad gan Derwen Lighting ynghylch y goleuadau. Penderfynwyd y bydd y clerc yn cael gwybodaeth bellach cyn y bydd modd gwneud taliad.

**Cyngor Ieuenctid** – Cafwyd enwau gan grŵp y sgowtiaid. Penderfynwyd y dylai'r clerc ofyn i'r Ganolfan Ieuenctid ac i'r Ysgol Uwchradd a oes ganddynt ragor o enwau. Penderfynwyd gofyn i'r aelodau ifanc ymuno â'r Cyngor ar ddechrau'r Flwyddyn Ariannol.

**Parc Coffa** – Penderfynwyd edrych am ffynonellau ariannol posibl i dalu am y plac coffa. Bydd y mater yn cael ei gynnwys ar agenda cyfarfod y mis nesaf.

**Tendr Cynnal a Chadw** – Penderfynwyd y bydd y clerc yn anfon y dogfennau tendro at Deiniol Evans, Mark Wilson a Meredith Williams, gan ofyn iddynt i'w dychwelyd cyn cyfarfod mis Chwefror.

### **6) Er Gwybodaeth**

**Cydnabod Derbyn rhodd** – Urdd Gobaith Cymru – Ardal Llandysul

**Gohebiaeth**

**Negeseuon e-bost** – Gweler y rhestr sydd ynghlwm o'r holl negeseuon e-bost a anfonwyd at y clerc ac a anfonwyd ymlaen at yr aelodau rhwng 8 Rhagfyr 2014 ac 8 Ionawr 2015.

**Ceredigion**

Cafwyd gwahoddiad gan Gartrefi Cynnes Ceredigion.

Cyngor Sir Gâr

Playground in Llandysul from April 2015 and proposing to transfer the responsibility to the Community Council. The clerk to put the matter on the Agenda for next month and also find out from the Community Council's Insurers how much extra the public liability insurance would cost.

### **5) Matters for discussion**

**Precept** – The clerk had prepared a summary of expenditure until the end of the financial year. Following a lengthy discussion it was decided not to raise the precept. It was decided to put general funding issues on next months agenda. **Plysydderwen** – A report was received from Derwen Lighting regarding the lights. It was decided that the clerk obtain further information before payment can be made.

**Youth Council** – Names had been received from the scout group. It was decided that the clerk ask the Youth Centre and Secondary School if they had more names. It was decided to ask the young members to join the Council at the beginning of the Financial Year.

**Memorial Park** – It was decided to look for possible funding avenues to fund the memorial plaque. The matter to be placed on the agenda next month.

**Maintenance Tender** – It was decided that the clerk send the for tenders documents to Deiniol Evans, Mark Wilson and Meredith Williams and ask for them to be returned before the February meeting.

### **6) For Information**

**Acknowledge Receipt of donation** – Urdd Gobaith Cymru – Llandysul Area

**Correspondence**

**Emails** – Find attached a list of all the emails sent to the clerk and forwarded to members from 8th December 2014 – 8 January 2015.

**Ceredigion**

An invitation was received from Gartrefi Cynnes Ceredigion.

**Carmarthenshire County Council**

Adoption of Carmarthenshire Local Development Plan

**Bwcabus** – December 2014 Newsletter was received.

Mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Sir  
Gaerfyrddin  
Bwcabus – cafwyd Cylchlythyr Rhagfyr 2014.

### **7 Gwybodaeth Ariannol**

Ieuenctid Tysul Youth – Llogi'r Ganolfan  
Ieuenctid  
Derwen Lighting – Trwsio golau yn y Maes  
Parcio  
Abacus Cleaning – Glanhau llochesau bws

**8 Cynllunio:** Cafwyd hysbysiad o Gyfarfod y Pwyllgor  
Rheoli Datblygiad a gynhelir ar 14/01/2015.

### **Cymeradwyaeth Gynllunio**

Fferm Pantmoch. Pont-siân – A140867  
Tir y tu ôl i Bant-yr-Awel, Rhydowen - A140676  
Tyrbin Gwynt Hendre, Pont-siân – A140210

Tynnwyd yn ôl

Tyrbin Gwynt, Moelgarnod, Rhydowen – A140675

### **7 Financial Information**

Ieuenctid Tysul Youth – Hire of Youth Centre  
Derwen Lighting – Car Park light repair  
Abacus Cleaning – |Cleaning of bus shelters

**8 Planning:** Notice of the Development Control  
Committee Meeting held on 14/01/2015 was received.

### **Planning Approval**

Pantmoch Farm. Pontsian – A140867  
Land at rear of Pant-yr-Awel, Rhydowen - A140676  
Wind Turbine Hendre, Pontsian – A140210

Withdrawn

Wind Turbine, Moelgarnod, Rhydowen – A140675



